O F F E R Y N N A U S T A T U D O L
C Y M R U

2012 Rhif 2819 (Cy. 297)

TRAFFIG FFYRDD, CYMRU

Gorchymyn Cefnffordd yr A465 (Cyfnewidfa Castell-nedd, Castell-nedd Port Talbot) (Gwahardd Cerbydau Dros Dro) 2012

Gwnaed	*9 Tachwedd 2012*
Yn dod i rym	*19 Tachwedd 2012*

Mae Gweinidogion Cymru, sef yr awdurdod traffig ar gyfer y darnau perthnasol o Gefnffordd Castell-nedd – Y Fenni (yr A465) (y cyfeirir ati yma wedi hyn fel "y gefnffordd"), wedi eu bodloni y dylid cyfyngu ar draffig ar ddarnau penodedig o'r gefnffordd oherwydd gwaith y bwriedir ei wneud arnynt.

Enwi, Dehongli a Chychwyn

Mae Gweinidogion Cymru, felly, drwy arfer y pwerau a roddwyd iddynt gan adran 14(1) a (4) o Ddeddf Rheoleiddio Traffig Ffyrdd 1984**(1)** a phob pŵer galluogi arall**(2)**, yn gwneud y Gorchymyn hwn.

1. Daw'r Gorchymyn hwn i rym ar 19 Tachwedd 2012, a'i enw yw Gorchymyn Cefnffordd yr A465 (Cyfnewidfa Castell-nedd, Castell-nedd Port Talbot) (Gwahardd Cerbydau Dros Dro) 2012.

2. —(1) Yn y Gorchymyn hwn:

ystyr "cerbyd esempt" ("*exempted vehicle*") yw unrhyw gerbyd sy'n cael ei ddefnyddio gan y gwasanaethau brys neu mewn cysylltiad â'r gwaith sy'n arwain at y Gorchymyn hwn;

ystyr "cyfnod y gwaith" *("works period")* yw'r cyfnod sy'n cychwyn am 20:00 o'r gloch ar 19 Tachwedd 2012 ac sy'n dod i ben pan fydd yr arwyddion traffig dros dro yn cael eu symud ymaith yn barhaol;

ystyr "y darnau o'r gefnffordd" ("*the lengths of the trunkroad*") yw'r darnau cyfan o'r ffyrdd ymadael tua'r dwyrain a'r gorllewin ar gefnffordd yr A465 wrth Gyfnewidfa Castell-nedd ym Mwrdeistref Sirol Castell-nedd Port Talbot.